# Ffurflen Adborth
# Feedback Form

| | |
|---|---|
| Enw'r Digwyddiad<br>Name of Event | Cadw'n Iach yn Sir Benfro |
| Pwrpas<br>Purpose | Digwyddiad sioe deithiol i ymgysylltu â chymunedau lleol o ran y gwasanaethau sydd ar gael |
| Corff Trefnu/Contact Name<br>Organizational Body/Enw Cyswllt | Hwb Sir Benfro |
| Dyddiad y Cyfarfod<br>Date of Meeting | 17/05/2024 |
| Enw Cynrychiolydd Llais GC<br>Name of LlaisWW Representative | Sian Lewis<br>Tracey Masters<br>David Bryan - Gwirfoddolwr |
| Man Cyfarfod<br>Venue | Neuadd Regency, Saundersfoot Sir Benfro |
| | |

**Cefndir / Background**

Mae Hwb Sir Benfro (Cydweithio rhwng PAVS, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Penfro) wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau sioe deithiol ar draws y sir er mwyn cyrraedd cymunedau ac arddangos y gwahanol wasanaethau sydd ar gael.

**Pwyntiau'n codi o'r cyfarfod / Points Arising from Meeting**

Roedd Llais yn bresennol ac yn ymgysylltu â'r ddau randdeiliad arall a oedd yn bresennol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd a fynychodd.

- Roedd yn galonogol bod rhai pobl eisoes wedi clywed am Llais yn y rhanbarth ac roeddent yn gadarnhaol am y ffaith bod yna fudiad annibynnol yn cynrychioli eu buddiannau.

- Ymgysylltodd Llais â mynychwyr eraill er mwyn sefydlu gwasanaethau sydd ar gael at ddibenion cyfeirio ac i ddatblygu cysylltiadau allweddol gan grwpiau na chlywir yn aml ganddynt, megis y Grŵp Arwyddo a Rhannu.
- Roedd y cyhoedd y buom yn siarad â nhw wedi synnu at y cylch gorchwyl a'r ardal ddaearyddol yr oedd Llais Gorllewin Cymru yn ei gwmpasu.
- Roedd rhai eitemau y siaradwyd amdanynt yn cynnwys:
- Mynediad at Feddygon Teulu – llywio drwy'r system apwyntiadau ac apwyntiadau ru’n diwrnod i gyd yn cael eu dyrannu ychydig ar ôl 0800 yn y bore. Mae rhai cleifion niwroddargyfeiriol yn ei chael hi'n arbennig o anodd gwneud apwyntiad oherwydd yr amseroedd aros gormodol ar y ffôn sy'n golygu nad ydynt yn gwneud apwyntiad a heb ymgynghoriad/meddyginiaeth bresgripsiwn.
- Adborth cadarnhaol i'r aelodau staff clinigol unwaith y bydd apwyntiadau wedi'u sicrhau.
- Diffyg sensitifrwydd pan fo cleifion yn mynychu apwyntiadau awdioleg ysbyty. (e.e. galw enwau cleifion allan)
- Gwasanaethau Cymdeithasol – mae'n ymddangos nad yw pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei gynnwys mewn gwirionedd ac felly'r hyn y gallant ei gyrchu/bod â hawl iddo.
- Trafnidiaeth – diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ac yn fwy felly pan fo cleifion yn cael eu hanfon ymhellach i gael mynediad i apwyntiadau.
- Nid oedd rhai mynychwyr yn dymuno derbyn unrhyw lenyddiaeth Llais oherwydd ei natur ddwyieithog.
- Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd mewn perthynas â gwasanaeth deintyddol cymunedol er ei bod yn ymddangos eu bod yn canolbwyntio ar achosion penodol megis anawsterau dysgu, ofn eithafol ac ati.
- Cafwyd rhywfaint o adborth cadarnhaol mewn perthynas ag ymateb prydlon staff clinigol yn Llwynhelyg pan gafodd y claf symptomau difrifol.
- Codwyd pryder ynghylch gallu meddygon teulu i adnabod symptomau posibl sepsis.